OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1699 (Cy.160)(C.87)

# GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2010

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn Rhan 3 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ("y Mesur") i effaith ar 1 Medi 2010 yn yr ardaloedd penodedig. Yr ardaloedd penodedig yw ardaloedd awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam.

Mae Rhan 3 o'r Mesur yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol sefydlu un neu ragor o dimau integredig cymorth i deuluoedd ("ICiD") yn eu hardal. Rhaid i Fwrdd Iechyd Leol y mae ei ardal yn cyfateb i ardal awdurdod lleol gymryd rhan mewn sefydlu'r tîm. Mae adran 58 o'r Mesur yn nodi'r mathau o achosion y gellir eu hatgyfeirio at dîm integredig cymorth i deuluoedd ac y mae adran 58(6) yn pennu'r categorïau o oedolion a all fod yn ddarostyngedig i atgyfeiriad teuluol. Paragraff (a) yn unig o adran 58(6) a gychwynnir. Hynny yw, ni chaiff tîm ICiD dderbyn atgyfeiriadau mewn perthynas â theulu ac eithrio pan fo rhiant yn ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau.

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaeth arall ynglŷn â chyllido timau ICiD (a.59) a chyfansoddiad y timau ICiD (a. 60). Mae adrannau 61 a 62 yn darparu am sefydlu byrddau ICiD i oruchwylio'r timau. Mae adran 63 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud

rheoliadau am amrywiol agweddau o weithrediad y timau a'r byrddau ICiD. Mae adran 64 yn gwneud yn ofynnol bod bwrdd yn paratoi adroddiad blynyddol ar y tîm. Mae adran 65 yn gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, a thimau a byrddau ICiD yn rhoi roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

# 2010 Rhif 1699(Cy. 160)(C.87)

# GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2010

*Gwnaed* *24 Mehefin 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 74(2) a 75(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (Cychwyn) 2010.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "Mesur 2010" ("*the 2010 Measure*") yw Mesur Pant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

**Y diwrnod penodedig ar gyfer ardaloedd a bennir**

**2.**—(1) Mae paragraff (2) o'r erthygl hon yn gymwys o ran yr ardaloedd awdurdod lleol a bennir yn erthygl 3.

(**1**) 2010 mccc 1

(2) Daw'r darpariaethau hynny yn Rhan 3 o Fesur 2010 a nodir yn yr Atodlen i rym ar 1 Medi 2010.

**Ardaloedd a bennir**

**3.** Ardaloedd yr awdurdodau lleol a bennir at ddibenion erthygl 2 yw —

(a) Merthyr Tudful(**1**);

(b) Casnewydd;

(c) Rhondda Cynon Taf; ac

(ch) Wrecsam.

*Gwenda Thomas*

Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2010

(**1**) Yr ardaloedd awdurdod lleol a ddynodir yn ardaloedd a bennir yw'r rhai a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)

# YR ATODLEN 1

## Darpariaethau Rhan 3

1. Adran 57 (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd)

2. Adran 58 ac eithrio is-baragraffau (b), (c) a (d) o is-adran (6) (swyddogaethau timau integredig cymorth i deuluoedd)

3. Adran 59 (adnoddau ar gyfer timau integredig cymorth i deuluoedd)

4. Adran 60 (cyfansoddiad timau integredig cymorth i deuluoedd)

5. Adran 61 (sefydlu byrddau integredig cymorth i deuluoedd)

6. Adran 62 (swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd)

7. Adran 63 (rheoliadau ynghylch timau a byrddau integredig cymorth i deuluoedd)

8. Adran 64 (adroddiadau blynyddol ar dimau integredig cymorth i deuluoedd)

9. Adran 65 (canllawiau ynghylch timau integredig cymorth i deuluoedd).